

**PRIFFYRDD, CYMRU**

**2013 Rhif**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (CYFFORDD  
ODDI AR LLWYDCOED ROAD HYD AT YR  
HEN DDEPO LLAETH, LLWYDCOED,  
ABERDÂR, RHONDDA CYNON TAF) 2013**

*Gwnaed* 5 Awst 2013

*Yn dod i rym* 8 Awst 2013

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1).

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

1. (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Cyffordd oddi ar Llwydcoed Road hyd at yr Hen Ddepo Llaeth, Llwydcoed, Aberdâr, Rhondda Cynon Taf) 2013 .

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr “y Cyngor” (“*the Council*”) yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf;

ystyr “y datblygwr” (“*the developer*”) yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr “Deddf 1990” (“*the 1990 Act*”) yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr “y plan a adneuwyd” (“*the deposited plan*”) yw'r plan o'r enw “Gorchymyn Cau Priffyrdd (Cyffordd oddi ar Llwydcoed Road hyd at yr Hen Ddepo Llaeth, Llwydcoed, Aberdâr, Rhondda Cynon Taf) 2013” sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

**Cau Priffyrdd**

2. Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4 a 5, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd. Mae

Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd er mwyn galluogi'r datblygiad i gael ei wneud yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 29 Rhagfyr 2011, o dan gyfeirnod rhif 11/1032/16 ac a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

### **Y Darpariaethau sy'n Angenrheidiol neu'n Hwylus cyn Cau Priffordd**

**3.** Ni chaniateir cau'r rhan o briffordd yn Atodlen 1–

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos drwy ba fodd y bwriedir cau'r rhan o briffordd;

(b) hyd nes y bydd y datblygiad yn Atodlen 2 wedi dechrau, a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig o'r rheidrwydd i gau'r briffordd er mwyn caniatáu i'r datblygiad fynd rhagddo; ac

(c) hyd nes y bydd y Cyngor wedi cadarnhau'n ysgrifenedig i'r datblygwr fod paragraffau (a) a (b) wedi eu bodloni.

### **Ymgwymerwyr a Darparwyr Statudol**

**4.** Os, yn union cyn cau'r rhan o briffordd, bydd unrhyw offer ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr cyfathrebu cyhoeddus o dan y briffordd, ynnddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws, yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990) bydd gan yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau o hyd mewn cysylltiad â'r offer ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Os na fydd y datblygiad yn Atodlen 2 wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan 3 o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatâd cynllunio, neu os yw'r caniatâd yn cael ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig            5 Awst 2013

**R MORGAN**

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

- (1) 1990 p. 8. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac maent yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 iddi.

## **ATODLEN 1**

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

### **Disgrifiad o'r rhan o Briffordd sydd i'w Chau o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o'r gyffordd oddi ar Llwydcoed Road hyd at hen ddepo llaeth yn Llwydcoed, Aberdâr, ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, a'i hyd mwyaf yn 6.2 metr, ei lled mwyaf yn 9.6 metr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 48.3 o fetrau sgwâr.

## **ATODLEN 2**

### **Y Datblygiad**

Datblygiad preswyl ar gyfer 47 o dai newydd gan gynnwys mynediad a gwaith cysylltiedig ar hen safle CWS Dairycrest, Llwydcoed Road, Llwydcoed, Aberdâr, ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

## **DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

### **GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (CYFFORDD ODDI AR LLWYDCOED ROAD HYD AT YR HEN DDEPO LLAETH, LLWYDCOED, ABERDÂR, RHONDDA CYNON TAF) 2013**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn.

Awdurdodir cau'r briffordd i galluogi'r datblygiad yn Atodlen 2 i gael ei wneud. Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Cyffordd oddi ar Llwydcoed Road hyd at yr hen Ddepo Llaeth, Llwydcoed, Aberdâr, Rhondda Cynon Taf) 2013 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopiau o'r Gorchymyn a'r plan a adnewwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell Aberdâr, Green Street, Aberdâr, Rhondda Cynon Taf CF44 7AG neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1064760/1.

Os caiff person ei dramgwyddo gan y Gorchymyn ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu
- b. na chydymffurfiwyd â gofyniad gweithdrefnol yn y Ddeddf,

caiff y person hwnnw, cyn pen 6 wythnos o 8 Awst 2013, wneud cais at y diben i'r Uchel Lys.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk) (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Anstatudol/Trafnidiaeth, Cymru/Gorchmynion Cau TCPA, 2013).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Trafnidiaeth, Y Gangen Orchmynion, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

## **ATODLEN 1**

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

### **Disgrifiad o'r rhan o Briffordd sydd i'w Chau o dan y Gorchymyn hwn**

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n rhan o'r gyffordd oddi ar Llwydcoed Road hyd at hen ddepo llaeth yn Llwydcoed, Aberdâr, ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, a'i hyd mwyaf yn 6.2 metr, ei lled mwyaf yn 9.6 metr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 48.3 o fetrau sgwâr.

## **ATODLEN 2**

### **Y Datblygiad**

Datblygiad preswyl ar gyfer 47 o dai newydd gan gynnwys mynediad a gwaith cysylltiedig ar hen safle CWS Dairycrest, Llwydcoed Road, Llwydcoed, Aberdâr, ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 29 Rhagfyr 2011 o dan gyfeirnod 11/1032/16.

